

Adroddiad Data Troseddau Casineb

Cyflwyniad

Dyma nawfed Adroddiad Troseddau Casineb Gwasanaeth Erlyn y Goron (GEG) ac mae'n rhoi gwybodaeth am berfformiad Gwasanaeth Erlyn y Goron wrth erlyn y troseddau canlynol rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017:

- Troseddau casineb hiliol a chrefyddol;
- Troseddau casineb homoffobig a thrawsffobig;
- Troseddau casineb tuag at bobl anabl;
- Ysgogi casineb; a
- Throseddau yn erbyn pobl hŷn.¹

Mae Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (CCPSH) a GEG wedi cytuno ar ddiffiniad cyffredin o drosedd casineb, sef:

"unrhyw drosedd y mae'r dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall yn ystyried ei bod wedi'i hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar hil neu hil ganfyddedig unigolyn; crefydd neu grefydd ganfyddedig; cyfeiriadedd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol canfyddedig; anabled neu anabled canfyddedig ac unrhyw drosedd wedi'i ysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn erbyn unigolyn sy'n drawsryweddol neu unigolyn yr ystyrir ei fod yn drawsryweddol."

Darperir y fframwaith cyfreithiol ar gyfer troseddau casineb yn bennaf gan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Y gair allweddol yn y diffiniad ar y cyd a'r fframwaith cyfreithiol yw "gelyniaeth"; gair a ddefnyddir yn ei ystyr cyffredin, bob dydd. Ni oes angen i'r erlyniad felly brofi *casineb* fel y ffactor ysgogol y tu ôl i drosedd. (Bydd hyn ond yn berthnasol o dan y troseddau ysgogi casineb). Nid oes angen ychwaith i'r drosedd gyfan gael ei hysgogi gan elyniaeth. Gall fod yr unig reswm dros y trosedd ond, yn yr un modd, gall ysgogiad o'r fath chwarae rhan neu gynrychioli dim ond un elfen o'r ymddygiad troseddol.

Mae GEG yn ceisio adeiladu a chynnal hyder cymunedau yr effeithir arnynt gan droseddau casineb. Nod yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth glir i'r cyhoedd am y gwaith a wneir gan GEG i fynd i'r afael â throseddau casineb a rhoi manylion am ei berfformiad. Mae hefyd yn nodi'r camau y bydd GEG yn eu cymryd i gefnogi a chynnal gwell perfformiad. I nodi cyhoeddi data perfformiad troseddau casineb GEG am y degfed flwyddyn yn olynol, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai dangosyddion o'r cynnydd a wnaed dros y deng mlynedd a fu. Dangosydd allweddol ar gyfer erlyn troseddau casineb er enghraifft yw'r cyhoeddiad gan y llys a chofnodi manylion ymgodi dedfrydau ar y System Rheoli Cynnwys.

Yn ychwanegol at y dadansoddiad a ddarperir yn yr adrodd hwn, mae'r data sylfaenol y mae casgliadau GEG wedi'u seilio arno wedi'i gyhoeddi. Gellir dod o hyd i'r data hwn ar wefan GEG yn: www.cps.gov.uk/data/hate_crime/.

¹Caiff gwybodaeth am droseddau yn erbyn pobl hŷn ei chynnwys yn yr adroddiad hwn. Gall troseddau o'r fath fod yn droseddau casineb neu beidio yn dibynnu ar ffeithiau bob achos penodol ac nid yw cyfeiriadau at ddata troseddau casineb yn yr adroddiad hwn yn cynnwys troseddau yn erbyn pobl hŷn oni bai y nodir hynny'n benodol.

Mae'n bwysig nodi bod GEG yn casglu data² i gynorthwyo i reoli ei swyddogaethau erlyn yn effeithiol. Nid yw GEG yn casglu data sy'n cynnwys ystadegau swyddogol fel y'i diffinnir yn Neddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007.³ Yn ogystal â'r dadansoddiad a ddarperir yn yr adroddiad hwn, mae'r data sylfaenol y mae casgliadau GEG wedi'u seilio arno wedi'i gyhoeddi. Gellir dod o hyd i'r data hwn ar wefan GEG yn: www.cps.gov.uk/data/hate_crime/. Caiff proffiliau cydraddoldeb diffinyddion, yn ôl rhyw, ethnigrwydd ac oedran eu hasesu a'u adrodd yn yr atodiad hwn. Caiff data ar broffiliau cydraddoldeb dioddefwyr ei adrodd pan fo ar gael ac rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd o wella'r data sy'n gysylltiedig â dioddefwyr a gedwir yn y System Cyfiawnder Troseddol. Yn unol â pholisi'r llywodraeth, rydym yn cyhoeddi'r data sylfaenol a ddefnyddir yn ein hadroddiadau.

Mae GEG yn gweithio mewn nifer o ffyrdd i wella perfformiad o ran erlyn troseddau casineb. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ein herlynwyr; ymgysylltu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid cymunedol, yr heddlu a phartneriaid eraill yn y SCT ac adrannau'r Llywodraeth a chynnal amrywiaeth o wiriadau ar berfformiad ei hun.

Yn 2016-17, roedd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan hanfodol o gefnogi ein gwaith mewnol yn ogystal â galluogi GEG i barhau i fod yn ymatebol i gyd-destun allanol sy'n datblygu'n gyflym:

- Cefnogaeth y Panel Craffu Cenedlaethol ar gyfer datblygu datganiadau polisi cyhoeddus;
- Mewnbwn i becynnau hyfforddi perthnasol;
- Panel Craffu Cenedlaethol ar droseddau casineb sy'n effeithio ar gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac
- Adolygiad o ymgysylltu cymunedol.

Wrth fynd ymlaen, bydd GEG yn parhau i ddatblygu ei ddull o ymateb i droseddau casineb a'u herlyniadau. Yn y pen draw, yr her ganolog sy'n dal i fod yw dulliau gwell o nodi pob trosedd a'u herlyn yn effeithiol gyda chymorth uniongyrchol gan yr holl bartneriaid perthnasol.

Cynllun Sicrwydd Troseddau Casineb

Cyflwynwyd Cynllun Sicrwydd Troseddau Casineb GEG ar 1 Ionawr 2015 i gwmpasu pob achos yn ymwneud ag anabledd, homoffobia a thrawsffobia. Ymestynnwyd y cynllun i gynnwys achosion a waethygir gan ffactorau hiliol a chrefyddol o fis Mai 2015 ymlaen.

Yn 2016-17, parhaodd Ardaloedd GEG i fonitro eu perfformiad gan ddefnyddio'r cynllun sicrwydd troseddau casineb yn canolbwyntio ar wirio ffeiliau achos cyfredol fel y gellir rhoi adborth i reolwyr ac erlynwyr unigol i annog gwelliant wrth ymdrin ag achosion a chanlyniadau achosion. Gwirwyd achosion a gwblhawyd hefyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â pholisïau a bod y data'n gywir. Mae adborth yn ganolog i'r cynllun gan ei fod yn cynnig cyfle dysgu i unigolion ac Ardaloedd GEG. Cyflwynir adroddiadau'n ganolog i gefnogi gweithredu cyson y broses ac i annog nodi a lledaenu arfer gorau ar draws GEG a'r SCT ehangach.

²Defnyddiwyd data ynghylch troseddau casineb o System Rheoli Achosion GEG a'r System Rheoli Gwybodaeth gysylltiedig, sy'n destun gwallau posibl o ran mewnbwnu a phrosesu data, fel yw'r achos gydag unrhyw system gofnodi ar raddfa eang. Ffigurau dros dro yw'r rhain ac maent yn amodol ar newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei chofnodi gan GEG. Mae GEG yn ymrwymedig i wella ansawdd ein data, ac o ganol mis Mehefin 2015 ymlaen, cyflwynodd drefn sicrwydd data newydd a allai esbonio ychydig o amrywiant annisgwyl mewn cyfresi data yn y dyfodol.

³Caiff yr ystadegau swyddogol yn ymwneud â throseddau a phlismona eu cynnal gan y Swyddfa Gartref a chaiff yr ystadegau swyddogol yn ymwneud â dedfrydu, achosion llys troseddol, troseddwy'r ddygir o flaen eu gwell, y llysoedd a'r farnwriaeth eu cynnal gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Cydgysylltwyr Troseddau Casineb

Mae Cydgysylltwyr Troseddau Casineb (CTC) yn arbenigwyr profiadol sydd wedi'u penodi ym mhob Ardal GEG yn ogystal ag yn GEG Uniongyrchol⁴ ac roeddent yn ganolog wrth gyflwyno'r Cynllun Sicrwydd Troseddau Casineb.

Yn 2016-17, parhaodd CTC i weithio i safonau gofynnol y cytunwyd arnynt yn ymwneud â rheoli perfformiad, ymgysylltu cymunedol ac â rhanddeiliaid a gweithredu polisi, a chwaraeant ran hanfodol wrth gefnogi erlyniadau troseddau casineb. Cyfarfu'r CTC ddwywaith yn ystod y flwyddyn i drafod materion yn codi o'r Cynllun Sicrwydd Troseddau Casineb, erlyniadau cyfryngau cymdeithasol a'r canllawiau newydd, gan wella perfformiad ar gyfer troseddau casineb yn ymwneud ag anabledd a nodi a dysgu o arferion gorau. Ategwyd y cyfarfodydd hyn gan gynadleddau ffôn misol a arweiniwyd gan CTC profiadol er mwyn galluogi dialog cyson ar droseddau casineb ar draws GEG.

Bu'r CTC hefyd yn cynorthwyo wrth ddatblygu deunyddiau cymorth perthnasol megis y canllawiau troseddau casineb, ymgysylltu mewn datrys amrywiaeth o faterion gweithredol, cymryd rhan mewn ymarferion cydymffurfio a sicrwydd, cyflwyno gweminarau arbenigol, cynorthwyo wrth ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant trosedd casineb a chynorthwyo wrth gynllunio a chyflwyno'r Paneli Craffu Cenedlaethol.

Cyfryngau Cymdeithasol

Cafodd canllawiau GEG diwygiedig ar erlyn achosion yn ymwneud â chyfathrebiadau a anfonir drwy'r cyfryngau cymdeithasol eu cyhoeddi ym mis Hydref 2016 yn ystod wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ac roeddent yn cynnwys adran newydd ar droseddau casineb. Roedd yr adran newydd yn rhoi sylw i rôl deddfwriaeth troseddau casineb wrth ystyried budd y cyhoedd a gwerth gorchmynion ategol priodol mewn ymdrech i atal troseddu yn y dyfodol.

Mae GEG yn profi cyfaint cynyddol o droseddau yn cael eu herlyn yn llwyr neu'n rhannol yn ymwneud â chyfathrebiadau ar-lein. Cymerir mesurau pellach yn 2017-18 i sicrhau gwell ymwybyddiaeth o'r hyn a olygir gan drosedd casineb ar-lein a sicrhau bod yr ymateb mor effeithiol â phosibl.

Crynodeb o Weithgarwch GEG

- Cynhaliodd GEG ymgynghoriad 13 wythnos o hyd ar ddatganiadau cyhoeddus yn cwmpasu'r holl linyddau trosedd casineb a fonitrowyd. Gofynnodd nifer fawr o ymatebwyr i'r ymgynghoriad am ragor o fanylion yn y datganiadau neu y dylent fynd i'r afael â phynciau ychwanegol. O ganlyniad, creodd GEG dudalen Troseddau Casineb ar wefan GEG i fodloni'r galw hwn. Yn dilyn yr adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, cyhoeddwyd y datganiadau terfynol ar 21 Awst 2017.
- Cynhaliodd GEG ymgyrch #HateCrimeMatters i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o waith GEG ar y mater hwn. Gyda'i gilydd, gwelodd 21.5 miliwn o bobl yr ymgyrch.
- I gydnabod yr heriau o ran ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn, Teithwyr a Roma, ac yn unol â'r camau yng nghynllun gweithredu ar gyfer troseddau casineb ar draws y Llywodraeth,

⁴Mae GEG Uniongyrchol yn gyfrifol am roi cyngor ar gyhuddo i'r heddlu o gwmpas y wlad, bob awr o'r dydd a phob diwrnod o'r flwyddyn.

cynhaliodd GEG Banel Craffu Cenedlaethol ar y materion presennol sy'n wynebu cymunedau o ran adrodd, ymchwilio ac erlyn troseddau casineb. Yn bresennol ar y panel oedd sefydliadau'n cynrychioli cymunedau Sipsiwn, Teithwyr a Roma yn ogystal â'r heddlu. Yn dilyn y panel, datblygodd GEG gynllun gweithredu ar gyfer cefnogi'r cymunedau hyn, a gaiff ei gyhoeddi yn 2017-18.

- Cynhaliodd GEG ymarfer samplu o erlyniadau aflwyddiannus a fethodd gan na fynychodd y dioddefwyr na'r tystion y llys. Tynnodd yr ymarfer samplu sylw at ffactorau mwy penodol a oedd yn nodi'r risg o beidio â mynychu, megis bod y dioddefwr yn gweithio o fewn economi'r nos, bod yr achos yn cynnwys cam-drin domestig neu fod y dioddefwr yn aelod o'r cymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. Rhannodd GEG gyfres o argymhellion â'r heddlu i leihau'r risg o beidio â mynychu.
- Ym mis Awst 2016, cyflwynodd GEG dystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cartref i droseddau casineb a'u canlyniadau treisgar. Roedd ymateb GEG i gwestiynau'r Pwyllgor yn cynnwys effeithiolrwydd polisiâu gorfodi'r gyfraith a deddfwriaeth bresennol ar gyfer atal ac erlyn troseddau casineb a'r elfen dreisgar sy'n gysylltiedig â hwy, yn ogystal ag ymgorffori ymateb GEG i adolygiad Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth troseddau casineb.
- I gefnogi gwell ymwybyddiaeth o ymgodi dedfryd yn berthnasol i erlyniad penodol, ychwanegwyd llythyron templed at y system rheoli cynnwys i rybuddio cyfreithwyr yr amddiffyniad a'r llys o fwrriad GEG i godi'r mater o ymgodi dedfrydau yn y llys.
- Parhaodd GEG i weithredu ei gynllun sicrwydd troseddau casineb, sydd wedi arwain at welliant parhaus yn nifer yr ymgodiadau dedfryd sydd wedi'u cyhoeddi a'u cofnodi.

Ymgysylltiad GEG â phartneriaid

- Yn 2016, gwnaeth y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus nifer o ymweliadau â rhanddeiliaid cymunedol. Prif nod yr ymweliadau oedd iddi glywed ei hun gan ddarparwyr gwasanaethau rheng flaen am natur ac effaith troseddau casineb a chlywed awgrymiadau o ran ba fesurau pellach y gallai GEG eu hystyried wrth fwrw ymlaen â'r agenda, megis codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb, lleihau'r rhwystrau rhag adrodd a chydabod pwysigrwydd y cyfyngau cymdeithasol wrth ledaenu casineb ar-lein. Roedd adborth gan gyfranogwyr yn cynnwys:

"Roedd hi'n wych cael cwrdd â'r CEC. Roedd ei gwybodaeth am droseddau casineb wedi creu argraff dda iawn arnom ni gyd a gobeithio bod clywed am ein gwaith ni, sef mynd i'r afael â homoffobia, deuffobia a thrawsffobia, wedi bod yn ddefnyddiol iddi hithau hefyd." **Nick Antjoule, Rheolwr Troseddau Casineb, Galop**

"Roedd Kick it Out yn falch o groesawu'r CEC, Alison Saunders, i'n swyddfa i drafod ein gwaith yn mynd i'r afael â throseddau casineb mewn pêl-droed. Roedd y cyfarfod yn ddiddorol iawn wrth i ni gyflwyno rhywfaint o'n gweithgarwch ymgyrchu i Alison, gan gynnwys y *fenter*'Call Time on Hate Crime'. Gobeithiwn barhau â'n trafodaeth ag Alison a GEG a'i datblygu ymhellach wrth i ni geisio herio casineb mewn pêl-droed ac yn y gymdeithas." **Roisin Wood, Cyfarwyddwr, Kick it Out**

"Ymwelodd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus â Tell MAMA a chlywodd am y mathau o achosion a materion yr ymdrinnir â hwy yn y ganolfan trydydd parti ar gyfer adrodd troseddau casineb gwrth-Foslemaidd. Dangosodd yr ymweliad ymrwymiad parhaus GEG i wrando ar randdeiliaid a sicrhau y gall gwybodaeth gan ddiodefwyr helpu i lywio

asiantaethau statudol. Mae ymweliad y CEC hefyd yn golygu bod ymrwymiad clir wedi'i wneud i sicrhau bod GEG yn ymgysylltu ag asiantaethau rheng flaen ac yn cael ei lywio ganddynt a bod GEG hefyd yn cymryd gwaith troseddau casineb yn ddifrifol iawn drwy ymgysylltiad parhaus." **Iman Abou Atta, Cyfarwyddwr, Tell MAMA**

- Cefnogodd GEG arweinydd troseddau casineb Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu mewn cynhadledd a gynhaliwyd ym Manceinion yn 2017, gan sôn am bob agwedd ar droseddau casineb. Cynrychiolwyd pob Ardal GEG.
- Ym mis Hydref 2016, cyhoeddodd GEG ganllawiau ar gydnabod ac adrodd troseddau casineb. Gan adeiladu ar ymgysylltiad cymunedol blaenorol ac yn dilyn ymgynghoriad manwl, mae'r gwaith hwn yn cydnabod y rhwystrau parhaus rhag adrodd a gyflwynir drwy ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth. Mae'r canllaw ar gyfer unigolion yn disgrifio beth yw trosedd casineb a beth i'w wneud am y peth yn ogystal ag amlinellu mecanweithiau cymorth sydd ar gael. Bwriedir yr ail ganllaw ar gyfer y rhai hynny mewn gwasanaethau rheng flaen, a allai fod y cyntaf i glywed am drosedd casineb neu ddigwyddiad casineb, a bydd yn cynnig arweiniad ac adnodd cyfeirio hanfodol.
- Ar draws y wlad, mae GEG yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid lleol drwy Baneli Craffu Lleol i wella ansawdd gwaith achos. Adolygwyd y paneli craffu ar droseddau casineb yn rhan o adolygiad o ymagwedd GEG tuag at ymgysylltiad cymunedol. O'r 127 o ymatebion i arolwg o aelodau panel, nododd 76% fod Paneli Craffu a Chynnwys Lleol (PCCLI) yn 'effeithiol' neu'n 'effeithiol iawn'.

Y Camau Nesaf

- Bydd GEG, yn rhan o ymagwedd ddiwygiedig tuag at ymgysylltiad a chynhwysiant cyhoeddus, yn cryfhau ei waith gyda rhanddeiliaid a phartneriaid cymunedol.
- Bydd GEG yn diweddarau trefniadau llywodraethu mewn cysylltiad â throseddau casineb, gan sicrhau bod GEG yn gwella ei berfformiad yn barhaus drwy oruchwyliaeth strategol gadarn a chydweithio effeithiol gyda'r heddlu a phartneriaid cymunedol.
- Caiff Cynllun Sicrwydd Troseddau Casineb GEG ei gryfhau, gan sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro a'i herio, a phwyslais clir yn cael ei roi ar wella canlyniadau ar gyfer dioddefwyr.
- Bydd GEG yn diwygio ei bolisi ar droseddau yn erbyn pobl hŷn yn y flwyddyn nesaf.

Data Troseddau Casineb

At ddibenion rheoli perfformiad, mae GEG wedi grwpio ynghyd droseddau casineb yn ymwneud â hil, crefydd, homoffobia, deuffobia, trawsffobia ac anabledd. Mae'r rhan fwyaf o erlyniadau troseddau casineb yn rhai a waethygyd ar sail hil a chrefydd (89.2%); wedyn ceir troseddau homoffobig/deuffobig/trawsffobig (10.1%) ac yna ceir troseddau anabledd (7.0%). O'r holl droseddau casineb, mae cyfran y troseddau casineb yn ymwneud â hil a chrefydd a erlynwyd wedi lleihau dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae cyfran y troseddau casineb eraill a erlynwyd wedi cynyddu.



- Yn 2016-17, roedd cynnydd bach o 0.7% mewn atgyfeiriadau gan yr heddlu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 12,997 i 13,086. Cafwyd cynnydd yng nghyfran yr achosion a

gyhuddwyd o 78.1% yn y flwyddyn flaenorol i 82.2%, gan arwain at gyhuddo 10,751 o bobl dan amheuaeth.

- Lleihaodd nifer yr erlyniadau troseddau casineb a gwblhawyd o 15,442 yn 2015-16 i 14,480 yn 2016-17. Cynrychiola hyn ostyngiad o 962 neu 6.2%.

Tabl 2: Erlyniadau troseddau casineb a gwblhawyd yn ôl canlyniad

	2011-12		2012-13		2013-14		2014-15		2015-16		2016-17	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	11,843	83.4%	10,794	82.6%	11,915	84.7%	12,220	82.9%	12,846	83.2%	12,072	83.4%
Aflwyddiannus	2,353	16.6%	2,276	17.4%	2,159	15.3%	2,518	17.1%	2,596	16.8%	2,408	16.6%
Cyfanswm	14,196	13,070	14,074	14,738	15,442	14,480						



- Gostyngodd nifer yr euogfarnau 6.0% o 12,846 yn 2015-16 i 12,072 yn 2016-17, a chafwyd rhywfaint o gynnydd yng nghyfradd euogfarnu i 83.4%. Mae hyn yn cymharu â chyfradd euogfarnu gyfartalog GEG, sef 83.9%.
- Mae'r gyfradd euogfarnu wedi codi o 79.8% yn 2007-08 i 83.4% yn 2016-17.

- Roedd 73.4% o ganlyniadau llwyddiannus oherwydd pledion euog⁵ aco'r holl erlyniadau troseddau casineb a heriwyd mewn treial (ac eithrio pledion cymysg⁶), cafodd 62.5% eu heuogfarnu
- Roedd 2,408 o erlyniadau'n aflwyddiannus – 8.7% o ganlyniad i beidio â chwblhau erlyniadau (gan gynnwys penderfyniadau i ollwng, tynnu'n ôl neu beidio â chynnig unrhyw dystiolaeth), sef gostyngiad o'r 9.8% yn 2015-16.
- O'r holl ganlyniadau aflwyddiannus, roedd 29.6% o ganlyniad i faterion dioddefwr;⁷ sy'n ostyngiad o'r 31% yn 2015-16. O'r *holl achosion* troseddau casineb a erlynwyd, mae'r gyfran a oedd yn aflwyddiannus o ganlyniad i faterion dioddefwyr wedi gostwng o 5.2% yn 2015-16 i 4.9% yn 2016-17. Mae hyn yn adlewyrchu'r camau a gymerwyd yn lleol i roi mesurau cymorth angenrheidiol ar waith ar gyfer dioddefwyr.
- Yn 2016-17, roedd cyfran yr achosion aflwyddiannus oherwydd rhyddfarn yn dilyn treial yn cynrychioli 31.4% (756) o'r holl achosion aflwyddiannus, sy'n gynydd o'r 28.9% (749) yn 2015-16.
- Mae ymgodiad dedfryd sydd wedi'i gyhoeddi a'i gofnodi mewn achos trosedd casineb a erlynwyd yn llwyddiannus yn ddangosydd clir o'r gyfraith yn cael ei chymhwyso i'r diben gorau. Yn 2016-17, roedd 6,306o ymgodiadau dedfryd wedi'u cyhoeddi a'u cofnodi (52.2%), sy'n gynydd o'r 4,347 neu 33.8% yn 2015-16.
- Dros y deng mlynedd ers 2007-08, mae hyn wedi codi o 324 (2.9%) o erlyniadau llwyddiannus i 6,306 (52.2%).
- Ar ddiwedd erlyniad, dyrennir prif gategori trosedd i achosion er mwyn dangos y math o gyhuddiadau a ddygwyd a'u difrifoldeb. Mae tabl 3 isod yn dangos yn 2016-17, o'r holl erlyniadau troseddau casineb dros y cyfnod adrodd, troseddau yn erbyn yr unigolyn a throseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus oedd y mwyaf cyffredin, a'r gyfran uchaf mewn troseddau a waethgwyd ar sail hil a chrefydd. Yng nghyd-destun troseddau casineb tuag at bobl anabl fodd bynnag, mae o ddiddordeb bod yr hyn y gellid ei alw'n droseddu meddiangar yn fwy cyffredin na throseddu yn erbyn y drefn gyhoeddus. Nodir hyn yn adran troseddau yn erbyn pobl anabl yr adroddiad.

Tabl 3: Prif gategori trosedd ar gyfer pob llinyn trosedd casineb

Prif Gategori Trosedd	Troseddau'n erbyn pobl anabl		Homoffobig a Thrawsffobig		Troseddau a waethgwyd ar sail Hil neu Grefydd	
	2015-16	2016-17	2015-16	2016-17	2015-16	2016-17

⁵Cynnydd o 66.6% yn 2007-08

⁶Ac eithrio pledion cymysg' yw achosion diffynyddion lle y ceir pledion 'dieuog' yn unig ar gyfer yr holl gyhuddiadau ac mae treial yn dilyn.

Dynladdiad	0.6%	0.7%	0.0%	0.1%	0.1%	0.0%
Troseddau yn erbyn yr unigolyn	48.0%	46.4%	59.2%	59.5%	76.4%	87.7%
Troseddau rhywiol	3.6%	5.1%	1.3%	1.3%	0.3%	0.1%
Byrgleriaeth	8.7%	7.3%	0.3%	0.1%	0.3%	0.3%
Lladrad	6.7%	7.5%	1.1%	1.4%	0.6%	0.3%
Dwyn a thrin eiddo	12.1%	11.4%	1.7%	1.1%	1.7%	1.0%
Twyll a ffugio	6.4%	8.4%	0.1%	0.2%	0.1%	0.0%
Difrod troseddol	2.9%	2.1%	3.9%	3.3%	3.3%	2.5%
Troseddau cyffuriau	0.4%	0.3%	1.2%	1.4%	0.6%	0.5%
Troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus	9.3%	9.1%	29.8%	30.6%	15.1%	7.1%

Materion Cydraddoldeb

Rhywedd

- O'r 14,480 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 11,747 yn wrywaidd, 2,723 yn fenywaidd ac mewn 10 achos ni chofnodwyd y rhywedd. Yn 2016-17, lle cafodd rhywedd y diffynnydd ei gofnodi, roedd 81.2% yn wrywaidd ac 18.8% yn fenywaidd. Roedd rhywfaint o gynnydd mewn diffynyddion benywaidd, o'r 17.5% yn y flwyddyn flaenorol.
- O ran data dioddefwyr, cofnododd y System Rheoli Tystion 14,398 o ddiodefwyr. O'r holl ddiodefwyr, roedd 6,452 yn wrywaidd, 3,731 yn fenywaidd ac mewn 4,215 o achosion, ni chofnodwyd y rhywedd. Gostyngodd nifer y diodefwyr y cofnodwyd eu rhywedd o 80.4% yn 2015-16 i 70.7% yn 2016-17 ac felly nid yw'n ddigon cadarn i gyfrifo cyfrannau yn ôl rhywedd yn fanwl gywir. Gan fod GEG yn ddiabynnol ar wybodaeth am ddiodefwyr a gesglir ac a drosglwyddir gan yr heddlu, ystyrir mesurau ar y cyd i sicrhau dulliau mwy cadarn o gofnodi rhywedd.

Ethnigrwydd

- Yn 2016-17, categoreiddiwyd 68.4% o ddiffynyddion troseddau casineb fel Gwyn (gostyngiad o'r 72.1% yn 2015-16), a chafodd 61.7% eu nodi o dan y categori Gwyn Prydeinig. Nododd 7.1% o ddiffynyddion eu bod yn Ddu, sy'n gynnydd bach o'r 6.7% yn y flwyddyn flaenorol, a nododd 5.3% eu bod yn Asiaidd, sy'n ostyngiad bach o'r flwyddyn flaenorol.⁸
- Mae ychydig yn llai na hanner ethnigrwydd diodefwyr dal heb ei gofnodi ac felly ni chaiff y data ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Oedran

- O'r diffynyddion hynny lle cofnodwyd eu hoedran, roedd y rhan fwyaf ohonynt rhwng 25 a 59 oed (69.8%) a rhwng 18 a 24 oed (18.6%). Roedd 26.3% o ddiffynyddion (3,804) yn 24 oed neu iau, ac roedd 955 (6.6%) o ddiffynyddion rhwng 14 a 17 oed a 162 (1.1%) rhwng 10 a 13 oed.

⁸Ni nododd 9.2% o ddiffynyddion eu hethnigrwydd wrth gael eu harestio (cynnydd ers 2015-16 o 2.6ppt) ac ni ddarparwyd 6.8% o ethnigrwydd diffynyddion i GEG gan yr heddlu (cynnydd ers 2015-16 o 0.8 ppt).

- O'r dioddefwyr hynny lle cofnodwyd eu hoedran⁹, roedd y rhan fwyaf rhwng 25 a 59 oed (75.6%) a 18 a 24 oed (14.5%). Roedd 18.6% o ddiodefwyr (2,428) yn 24 oed ac iau, ac roedd 430 (3.3%) o ddiodefwyr rhwng 14 a 17 oed, 107 (0.8%) rhwng 10 a 13 oed a 3 o dan 10 oed (0.0%).

⁹Cofnodwyd 90.6% o oedranau diodefwyr yn 2016-17 – cynnydd o 81.6% yn 2015-16.

Hil a Chrefydd

Cyflwyniad

Dechreuwyd cofnodi troseddau casineb a waethygydd ar sail hil a chrefydd ar wahân yn 2010-11. Yn flaenorol, cafodd y data ei gyfuno. Erbyn hyn, ar system ddigidol GEG ar gyfer rheoli achosion gellir fflagio achosion fel rhai a waethygydd ar sail hil, ar sail crefydd neu, lle mae tystiolaeth briodol ar gael, y ddau. Mae nodi ac asesu'n fanwl gywir y dystiolaeth sydd ar gael o elyniaeth i gefnogi un agwedd ar elyniaeth neu un arall yn parhau i fod yn her. Er enghraifft, efallai nad yw troseddwr yn ymwybodol o wir hunaniaeth y dioddefwr/wyr unigol ac yn defnyddio iaith a all fod yn aneglur. Mae erlynydd yn canolbwyntio ar fod mor fanwl gywir â phosib ym mhob erlyniad ac yn y dadleuon a gyflwynir yn y llys i gefnogi.

Crynodeb o weithgarwch GEG

- Gyda chefnogaeth Panel Craffu Cenedlaethol yn canolbwyntio ar llyn penodol, adnewyddwyd y datganiad cyhoeddus ar droseddau a waethygydd ar sail hil a chrefydd a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a dderbyniodd ymateb cadarnhaol yn gyffredinol.
- Datblygodd a chyflwynodd GEG becyn hyfforddiant wyneb yn wyneb ynghylch mynd ati'n fanwl gywir i nodi tystiolaeth yn ymwneud â throseddau casineb a waethygydd ar sail hil a chrefydd. Cefnogwyd yr hyfforddiant hwngan ddeunydd astudiaeth achos gan yr Ymddiriedolaeth Diogelwch cymunedol a Tell MAMA. Roedd y ddau sefydliad hyn ar fwrdd y prosiect ac yn rhan o'r ymarfer peilot. Ymgorfforwyd gwiriadau ychwanegol yn rhan o'r cynllun Sicrwydd Troseddau Casineb a gynlluniwyd i asesu pa un a oedd polisi'n cael ei gymhwyso'n briodol lle'r oedd tystiolaeth o elyniaeth wrthsemitaidd neu wrth-Foslemaidd.

Data



Nid yw data perfformiad GEG wedi'i wahanu yn ôl hil a chrefydd ar gael cyn 2010, pan gyflwynwyd fflagiau a chofnodi ar wahân. I gael cymariaethau dros y cyfnod deng mlynedd, rydym felly wedi cyfuno'r data yn ymwneud â throseddau a waethygydd ar sail hil a chrefydd.

- Roedd nifer yr holl achosion troseddau casineb a waethygydd ar sail hil a chrefyddda atgyfeiriwyd gan yr heddlu wedi aros yn gyson ar 10,706 yn 2016-17 o'i gymharu â 10,728 yn 2015-16 – gostyngiad o 22 o atgyfeiriadau'n unig (0.2%). O'r rhain, cyhuddwyd 83.0% (sy'n gynnwys o'r 78.9% yn y flwyddyn flaenorol) gan arwain at 8,891 o bobl dan amheuaeth yn cael eu cyhuddo (cynnydd o 5.0% o 2015-16).
- Fodd bynnag, roedd yna wahaniaeth rhwng troseddau a waethygydd ar sail hil a rhai a waethygydd ar sail crefydd. Cafwyd cynnydd mewn atgyfeiriadau a diffynyddion a gyhuddwyd o droseddau a waethygydd ar sail hil a gostyngiad yn y ddau ar gyfer troseddau a waethygydd ar sail crefydd, a amlinellir yn yr adrannau isod.
- Cafwyd gostyngiad yn nifer yr erlyniadau¹⁰ a gwblhawyd o 13,032 yn 2015-16 i 12,004 yn 2016-07 – sy'n ostyngiad o 1,028 o ddiffynyddion (7.9%).

¹⁰Nodwch fod nifer y diffynyddion a gyhuddwyd yn cynnwys yr achosion hynny, yn ôl y rhai hynny dan amheuaeth, a anfonwyd ymlaen at GEG yn ystod 2016-17 ar gyfer penderfyniadau cyhuddo ac nid ydynt yn cymharu'n uniongyrchol o ran niferoedd â'r rhai hynny a erlynyddwyd sy'n cynnwys achosion, yn ôl diffynyddion, a gwblhawyd yn ystod 2016-17.

Tabl 5: Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl canlyniad ar gyfer troseddau a waethygyd ar sail hil a chrefydd

	2011-12		2012-13		2013-14		2014-15		2015-16		2016-17	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	10,412	84.2%	9,415	83.1%	10,532	85.2%	10,680	83.5%	10,920	83.8%	10,061	83.8%
Aflwyddiannus	1,955	15.8%	1,919	16.9%	1,836	14.8%	2,115	16.5%	2,112	16.2%	1,943	16.2%
Cyfanswm	12,367		11,334		12,368		12,795		13,032		12,004	



- Gostyngodd nifer yr euogfarnau o 10,920 yn 2015-16 i 10,061 yn 2016-17 – gostyngiad o 859 o euogfarnau (7.9%). Arhosodd y gyfradd euogfarnau'n gyson ar 83.8% yn 2015-16 ac yn 2016-17, ond roedd hynny yng nghyd-destun nifer is o erlyniadau. Mae hyn yn cymharu â'r cyfartaledd cyfunol ar gyfer holl euogfarnau GEG a oedd yn 83.9% yn 2016-17.

- Yn 2016-17, arhosodd pledion euog yn gyson ar 74.0%. Roedd hefyd 62.5% o euogfarnau o'r holl erlyniadau troseddau casineb a waethygydd ar sail hil a chrefydd a heriwyd mewn treial (ac eithrio pledion cymysg).¹¹
- Yn 2016-17, 30.2% (586) oedd cyfran yr achosion aflwyddiannus o ganlyniad i faterion yn ymwneud â'r dioddefwyr, sy'n welliant o'i gymharu â'r ffigwr ar gyfer 2015-16, sef 31.9% (674).
- Yn 2016-17, cynyddodd cyfran yr achosion aflwyddiannus oherwydd rhyddfarn yn dilyn treial, o 28.0% (591) yn 2015-16 i 32.0% (621).
- Yn 2016-17, roedd yna 5,610 o ymgodiadau dedfryd wedi'u cyhoeddi a'u cofnodi (55.8%), sy'n gynydd o'r 3,802 neu 34.8% yn 2015-16.
- Dros y deng mlynedd diwethaf ers 2007-08, mae hyn wedi codi o 314 (3.0%) o erlyniadau llwyddiannus i 5,610 (55.8%).
- Ddeng mlynedd yn ôl, y gyfradd euogfarnu gyffredinol ar gyfer erlyniadau troseddau a waethygydd ar sail hil a chrefydd oedd 79.9%. Yn 2016-17, cynyddodd y gyfradd i 84.0%. O ran troseddau a waethygydd ar sail crefydd, roedd y ffigyrau hyn yn 80.4% ac yn 80.6%. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn nifer yr erlyniadau yn gwneud y cynnydd hwn yn fwy effeithiol, o 144 o erlyniadau wedi'u cwblhau i 478.
- Yn 2007-08, roedd cyfradd y canlyniadau llwyddiannus mewn achosion a waethygydd ar sail hil a ddeilliodd o bledion euog yn 66.4% (8,516). Yn 2016-17, cynyddodd y gyfradd hon i 74.2% (8,466) o ganlyniadau llwyddiannus.

Materion cydraddoldeb

Rhywedd

- O'r 12,004 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 9,805 o ddiffynyddion yn wrywaidd, 2,190 yn fenywaidd ac mewn 9 achos, ni chofnodwyd y rhywedd. Yn 2016-17, lle cofnodwyd rhywedd y ddiffynnydd, roedd 81.7% yn wrywaidd a 18.2% yn fenywaidd. Mae hyn yn gynydd bach mewn diffynyddion benywaidd o'r 17.1% yn y flwyddyn flaenorol.
- O ran data dioddefwyr, cofnododd y System Rheoli Tystion 11,853 o ddiodefwyr. O'r holl ddiodefwyr, roedd 5,368 yn wrywaidd, 2,850 yn fenywaidd ac mewn 3,635 o achosion, ni chofnodwyd y rhywedd. Gostyngodd nifer y diodefwyr y cofnodwyd eu rhywedd o 79.7% yn 2015-16 i 69.3% ac felly nid yw'n ddigon cadarn i gyfrifo cyfrannau yn ôl rhywedd yn fanwl gywir.

Ethnigrwydd

- Yn 2016-17, categoreiddiwyd 68.0% o ddiffynyddion troseddau casineb fel Gwyn (gostyngiad o'r 72.0% yn 2015-16), a nododd 60.8% o'r rheiny eu bod yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig. Nododd 7.2% o ddiffynyddion eu bod yn Ddu, sy'n gynydd bach o'r 6.8% yn y flwyddyn flaenorol, a nododd 5.7% eu bod yn Asiaidd, sy'n gynydd bach o'r 6.2% yn y flwyddyn flaenorol¹².

¹¹Ac eithrio pledion cymysg' yw achosion diffynyddion lle ceir pledion 'dieuog' yn unig ar gyfer yr holl gyhuddiadau ac mae treial yn dilyn.

¹²Ni nododd 9.3% o ddiffynyddion eu hethnigrwydd wrth iddynt gael eu harestio (cynnydd ers 2015-16 o 2.7ppt) a ni ddarparwyd 6.7% o ethnigrwydd diffynyddion i GEG gan yr heddlu (cynnydd ers 2015-16 o 0.9ppt).

- Mae ethnigrwydd dros hanner y dioddefwyr yn dal heb ei gofnodi ac felly ni chaiff y data ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Oedran


- O'r diffynyddion hynny y cofnodwyd eu hoedran, roedd y rhan fwyaf ohonynt rhwng 25 a 59 oed (70.4%) a rhwng 18 a 24 oed (18.4%). Roedd 25.7% o ddiffynyddion (3,081) yn 24 oed ac iau, 748 (6.2%) o ddiffynyddion rhwng 14 a 17 oed a 121 (1.0%) rhwng 10 a 13 oed.
- O'r dioddefwyr hynny y cofnodwyd eu hoedran, roedd y rhan fwyaf rhwng 25 a 59 oed (78.4%) a rhwng 18 a 24 oed (13.3%). Roedd 17.4% o ddiodefwyr (1,870) yn 24 oed ac iau, roedd 344 (3.2%) rhwng 14 a 17 oed, 95 (0.9%) rhwng 10 a 13 oed a 3 o dan 10 oed (0.0%).


Troseddau a waethgwyd ar sail hil

- Yn 2016-17, roedd yna gynydd bach o 0.4% mewn atgyfeiriadau gan yr heddlu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 10,155 i 10,198. Roedd yna gynydd yng nghyfran yr achosion a gyhuddwyd o 78.9% yn y flwyddyn flaenorol i 83.0%, gan arwain at 8,469 o bobl dan amheuaeth yn cael eu cyhuddo.
- Gostyngodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd o 12,295 yn 2015-16 i 11,411 yn 2016-17. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 884 neu 7.2%.

Tabl 6: Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl canlyniad ar gyfer troseddau a waethgwyd ar sail hil

	2011-12		2012-13		2013-14		2014-15		2015-16		2016-17	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	9,933	84.4%	9,107	83.3%	10,069	85.2%	10,123	83.5%	10,337	84.1%	9,583	84.0%
Aflwyddiannus	1,841	15.6%	1,828	16.7%	1,749	14.8%	2,007	16.5%	1,958	15.9%	1,828	16.0%
Cyfanswm	11,774		10,935		11,818		12,130		12,295		11,411	







- Gostyngodd nifer yr euogfarnau 7.3%, o 10,337 yn 2015-16 i 9,583 yn 2016-17, ac arhosodd y gyfradd euogfarnu'n gyson ar 84.0%.
- Mae'r gyfradd euogfarnu wedi codi o 79.9% yn 2007-08 i 84.0% yn 2016-17.
- Roedd 74.2% o ganlyniadau llwyddiannus oherwydd pledion euog, ac o'r holl erlyniadau troseddau casineb a waethygydd ar sail hil a heriwyd mewn treial (ac eithrio pledion cymysg), cafwyd 62.6% yn euog.
- Roedd 1,828 o erlyniadau'n aflwyddiannus – 8% o ganlyniad i beidio â chwblhau erlyniadau (gan gynnwys penderfyniadau i ollwng, tynnu'n ôl neu beidio â chynnig unrhyw dystiolaeth), sef gostyngiad o'r 9.3% yn 2015-16.
- O'r holl ganlyniadau aflwyddiannus, roedd 30.4% o ganlyniad i faterion yn ymwneud â'r dioddefwyr, sy'n ostyngiad o'r 32.6% yn 2015-16.
- Yn 2016-17, roedd cyfran yr achosion aflwyddiannus oherwydd rhyddfarn yn dilyn treial yn cynrychioli 32.0% (585) o'r holl achosion aflwyddiannus, sy'n gynydd o'r 27.5% (538) yn 2015-16.
- Yn 2016-17, roedd 55.8% o achosion yn cynnwys ymgodiadau dedfryd wedi'u cyhoeddi a'u cofnodi, sy'n gynydd o'r 35.0% yn 2015-16.

Troseddau a waethygydd ar sail crefydd

- Yn 2016-17, cafwyd gostyngiad bach mewn atgyfeiriadau gan yr heddlu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 573 i 508. Roedd yna gynydd yng nghyfan yr achosion a gyhuddwyd o 78.2% yn y flwyddyn flaenorol i 83.1%, gan arwain at 422 o bobl dan amheuaeth yn cael eu cyhuddo (fodd bynnag, roedd hyn yn ostyngiad o 26 o bobl dan amheuaeth o 2015-16).
- Gostyngodd nifer yr erlyniadau troseddau casineb crefyddol a gwblhawyd o 737 yn 2015-16 i 593 yn 2016-17. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 144 neu 19.5%.

Tabl 7: Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl canlyniad ar gyfer troseddau a waethygydd ar sail crefydd

	2011-12		2012-13		2013-14		2014-15		2015-16		2016-17	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	479	80.8%	308	77.2%	463	84.2%	557	83.8%	583	79.1%	478	80.6%
Aflwyddiannus	114	19.2%	91	22.8%	87	15.8%	108	16.2%	154	20.9%	115	19.4%
Cyfanswm	593		399		550		665		737		593	



- Gostyngodd nifer yr euogfarnau 18%, o 583 yn 2015-16 i 478 yn 2016-17, a chyfradd euogfarnu gyson o 80.6% (79.1% yn 2015-16).
- Roedd 70.3% o ganlyniadau llwyddiannus o ganlyniad i bledion euog, ac o'r holl erlyniadau a heriwyd mewn treial (ac eithrio pledion cymysg), cafwyd 61.6% yn euog.
- Roedd cyfran yr achosion yn methu oherwydd materion yn ymwneud â'r dioddefwyr yn cyfrif am 23.4% (36) o'r holl erlyniadau aflwyddiannus yn 2015-16. Yn 2016-17, cynyddodd y ffigur i 26.1% (30). Mae angen bod yn ofalus â niferoedd mor fach.
- Yn 2016-17, roedd cyfran yr achosion aflwyddiannus o ganlyniad i ryddfarn yn dilyn treial yn cynrychioli 31.3% (36) o'r holl achosion aflwyddiannus, sy'n ostyngiad o'r 34.4% (53) yn 2015-16.

- Yn 2016-17, 54.8% oedd cyfran yr erlyniadau troseddau casineb a waethygydd ar sail crefydd a gwblhawyd yn llwyddiannus gydag ymgodiad dedfryd wedi'i gyhoeddi a'i gofnodi, sy'n gynydd o'r 31.9% yn 2015-16.

Homoffobig, Deuffobig a Thrawsffobig

Cyflwyniad

Sefydlwyd Panel Craffu Cenedlaethol i gynorthwyo â'r gwaith o adolygu'r datganiad polisi ynghylch erlyn troseddau yn seiliedig ar elyniaeth mewn cysylltiad â chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd. Codwyd y mater o droseddau deuffobig gan randdeiliaid cymunedol ac mae GEG wedi derbyn yr angen i gynnwys gelyniaeth ddeuffobig fel ffurf arall o elyniaeth a brofir gan gymunedau. Er nad oes gennym y mecanwaith ar hyn o bryd i gofnodi ysgogiad o'r fath, mae polisi a chanllaw ar gyfer erlynwyr wedi'u diwygio i sicrhau bod ein staff yn ymwybodol o'r newid hwn. Hefyd, bydd cwrs hyfforddi gorfodol, sydd i'w gyflwyno gan Ardaloedd GEG rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Mawrth 2018, yn tynnu sylw at y newid hwn.

Crynodeb o weithgarwch GEG

- Gyda chefnogaeth Panel Craffu Cenedlaethol yn canolbwyntio ar linyn penodol, adnewyddwyd y datganiad cyhoeddus ar droseddau homoffobig, deuffobig a thrawsffobig a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a dderbyniodd ymateb cadarnhaol yn gyffredinol.
- Tua diwedd 2016-17, sefydlwyd bwrdd prosiect, gan gynnwys aelodaeth gan Stonewall a Galop, i ddatblygu pecyn hyfforddi yn ymwneud â throseddau casineb homoffobig, deuffobig a thrawsffobig, i'w gyflwyno ar draws GEG. Bwriedir ei gyflwyno i erlynwyr erbyn diwedd mis Mawrth 2018.
- Cytunodd yr Heddlu a GEG i drin achosion o dorri'r gyfraith o dan adran 22 Deddf Cydnabod Rhywedd 2004 fel troseddau casineb posib. Mae Deddf Cydnabod Rhywedd 2004 (DCRh 2004) yn darparu ar gyfer cydnabyddiaeth gyfreithiol unigolion traws yn eu rhywedd caffaeledig a'r cyfle i gaffael tystysgrif geni newydd ar gyfer eu rhywedd newydd. Mae DCRh 2004 hefyd yn amddiffyn y rhai hynny sydd wedi derbyn neu sydd yn y broses o dderbyn Tystysgrif Cydnabod Rhywedd rhag i'r wybodaeth hon gael ei datgelu heb eu caniatâd. Felly, o dan Gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr, mae'n rhaid atgyfeirio'r holl achosion lle y mae'r heddlu'n penderfynu bod sail gadarn ar gyfer erlyniad at GEG, ar gyfer penderfyniad ynghylch cyhuddo.

Data

Noder, ni chaiff data perfformiad GEG ei adrodd cyn 2012 pan newidiodd y gyfraith i ymgorffori troseddau casineb trawsffobig. Yn y cymariaethau deng mlynedd, rydym felly wedi cyfuno'r data fel y'i dosbarthwyd yn y blynyddoedd hynny fel homoffobig a thrawsffobig.


- Fe wnaeth nifer yr holl achosion o droseddau casineb homoffobig, deuffobig a thrawsffobig a atgyfeiriwyd gan yr heddlu gynyddu ychydig i 1,392 yn 2016-17 o'i gymharu â 1,339 yn


2015-16 – cynnydd o 53 o atgyfeiriadau (4%). O'r rhain, cyhuddwyd 78.3% (i fyny o 73.1% yn y flwyddyn flaenorol) gan arwain at 1,090 o bobl dan amheuaeth yn cael eu cyhuddo (cynnydd o 11.3% o 2015-16).

- Fodd bynnag, roedd yna wahaniaeth rhwng troseddau casineb homofffobig a thrawsffobig - a chynnydd mewn atgyfeiriadau a diffynyddion a gyhuddwyd o droseddau casineb homofffobig a gostyngiad mewn atgyfeiriadau ond cynnydd mewn diffynyddion a gyhuddwyd o droseddau casineb trawsffobig, a amlinellir yn yr adrannau isod.
- Cafwyd gostyngiad bach yn nifer yr erlyniadau troseddau casineb o 1,469 yn 2015-16 i 1,467 yn 2016-17.

Tabl 8: Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl canlyniad ar gyfer troseddau homofffobig a thrawsffobig

	2011-12		2012-13		2013-14		2014-15		2015-16		2016-17	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	951	78.7%	885	80.7%	913	80.7%	1,037	81.2%	1,219	83.0%	1,211	82.5%
Aflwyddiannus	257	21.3%	211	19.3%	219	19.3%	240	18.8%	250	17.0%	256	17.5%
Cyfanswm	1,208		1,096		1,132		1,277		1,469		1,467	





- Gostyngodd nifer yr euogfarnau ychydig bach o 1,219 yn 2015–16 i 1,211 yn 2016–17 – gostyngiad o 8 euogfarn (0.7%). Gostyngodd y gyfradd euogfarnu ychydig bach o 83.0% yn 2015-16 i 82.5% yn 2016-17.
- Yn 2016-17, gostyngodd nifer y pledion euog ychydig bach i 72.5%. Hefyd, cafwyd 63.2% o euogfarnau o'r holl erlyniadau troseddau casineb homoffobig, deuffobig a thrawsffobig a heriwyd mewn treial (ac eithrio pledion cymysg¹³).
- Yn 2016-17, 32% (82) oedd cyfran yr achosion aflwyddiannus o ganlyniad i faterion yn ymwneud â'r dioddefwyr, sy'n gynydd o'i gymharu â'r ffigwr ar gyfer 2015-16, sef 28.4% (71).
- Yn 2016-17, gostyngodd cyfran yr achosion aflwyddiannus o ganlyniad i ryddfarn yn dilyn treial o 34% (85) yn 2015-16 i 27.7% (71).
- Yn 2016-17, roedd 579 o ymgoriadau dedfrydau wedi'u cyhoeddi a'u cofnodi, sef 47.8%, sy'n gynydd o'r 461 neu 37.8% yn 2015-16.
- Dros y deng mlynedd diwethaf ers 2007-08, mae hyn wedi codi o 6 (0.8%) erlyniad llwyddiannus i 579 (47.8%).
- Ddeng mlynedd yn ôl, y gyfradd euogfarnu gyffredinol ar gyfer erlyniadau troseddau casineb homoffobig, deuffobig a thrawsffobig oedd 78.2%. Yn 2016-17, cynyddodd y gyfradd i 82.5%.
- Gall pledion euog mewn achosion nodi ansawdd yr achos a grëwyd gan yr erlyniad a all arwain at yr amddiffyniad a'r llys yn derbyn y dadleuon a gyflwynwyd. Yn 2007-08, roedd canran y canlyniadau llwyddiannus mewn achosion troseddau casineb homoffobig, deuffobig a thrawsffobig a ddeilliodd o bledion euog yn 66.5% (662). Yn 2016-17, cynyddodd y gyfradd hon i 72.5% (1,064) o ganlyniadau llwyddiannus.

Materion Cydraddoldeb

Rhywedd

¹³ Ac eithrio pledion cymysg' yw achosion diffynyddion lle y ceir pledion 'dieuog' yn unig ar gyfer yr holl gyhuaddiadau ac mae treial yn dilyn.

- O'r 1,467 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 1,216 o ddiffynyddion yn wrywaidd, 250 yn fenywaidd ac mewn 1 achos ni chofnodwyd y rhywedd. Yn 2016-17, lle y cofnodwyd rhywedd y diffynyddion, roedd 82.9% yn wrywaidd ac roedd 17.1% yn fenywaidd, sy'n gynydd bach mewn diffynyddion benywaidd o'r 16.5% yn y flwyddyn flaenorol.
- O ran data dioddefwyr, cofnododd y System Rheoli Tystion 1,504 o ddiodefwyr. O'r holl ddiodefwyr, roedd 688 (45.7%) yn wrywaidd, roedd 467 (31.1%) yn fenywaidd ac mewn 349 (23.2%) o achosion, ni chofnodwyd y rhywedd. Gostyngodd nifer y diodefwyr y cofnodwyd eu rhywedd o 84.6% yn 2015-16 i 76.8% ac felly nid yw'n ddigon cadarn i gyfrifo cyfrannau yn ôl rhywedd yn fanwl gywir. Yn 2017-18, caiff mesurau eu hystyried i sicrhau dulliau mwy cadarn o gofnodi rhywedd.

Ethnigrwydd

- Yn 2016-17, categoreiddiwyd 68.2% o ddiffynyddion troseddau casineb fel Gwyn (gostyngiad o'r 71.1% yn 2015-16), a nododd 63.7% o'r rheini eu bod yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig. Nododd 7.0% o ddiffynyddion eu bod yn Ddu, sy'n ostyngiad bach o'r 7.1% yn y flwyddyn flaenorol. Nododd 3.7% eu bod yn Asiaidd, sydd hefyd yn ostyngiad bach o'r 3.9% yn y flwyddyn flaenorol.
- Mae ychydig llai na hanner o ethnigrwydd diodefwyr yn dal heb ei gofnodi ac felly ni chaiff y data ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Oedran

- O'r diffynyddion hynny y cofnodwyd eu hoedran, roedd y rhan fwyaf rhwng 25 a 59 oed (66.5%) a rhwng 18 a 24 oed (21.2%). Roedd 29.8% o ddiffynyddion (435) yn 24 oed ac iau, a 108 (7.4%) o ddiffynyddion rhwng 14 a 17 oed ac 17 (1.2%) rhwng 10 a 13 oed.
- O'r diodefwyr hynny lle y cofnodwyd eu hoedran, roedd y rhan fwyaf rhwng 25 a 59 oed (66.9%) a rhwng 18 a 24 oed (24.8%). Roedd 29.2% o ddiodefwyr (404) yn 24 oed ac iau, ac roedd 58 (4.2%) o ddiodefwyr rhwng 14 a 17 oed, 3 (0.2%) rhwng 10 a 13 oed a 0 dan 10 oed (0%).

Troseddau trawsffobig

2014-15 oedd y flwyddyn gofnodi gyntaf yn dilyn y newid i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 i ymgorffori hunaniaeth drawsryweddol fel nodwedd waethybol. Mae gwerth tair blynedd o ddata yn gyfnod rhy ychydig i bennu casgliadau diffiniol o ran tueddiadau. Serch hynny, rydym yn credu ei bod hi'n bwysig rhannu'r data sydd gennym fel dangosydd o'n hymrwymiad ac fel sicrwydd i gymunedau.

- Yn 2015-16, cafwyd gostyngiad o 11.2% mewn atgyfeiriadau gan yr heddlu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 98 i 87. Cafwyd cynnydd yn nifer yr achosion a gyhuddwyd o 53 (54.1%) yn 2015-16 i 66 (75.9%) yn 2016-17.
- Cynyddodd nifer yr erlyniadau troseddau casineb trawsffobig a gwblhawyd o 85 yn 2015-16 i 92 yn 2016-17. Cynrychiola hyn gynydd o 8.2%.
- Yn 2015-16, roedd y gyfradd euogfarnu ar gyfer achosion trawsffobig yn 80.0% (neu 68 o ganlyniadau llwyddiannus), ac yn 2016/17, roedd y gyfradd yn 72.8% (neu 67 o ganlyniadau

llwyddiannus). Cafwyd pledion euog mewn 68.2% o ganlyniadau llwyddiannus (neu 58 o achosion) yn 2015-16 a 60.9% (neu 56 o achosion) yn 2016-17.

- Yn 2015-16, 35.3% oedd cyfran yr erlyniadau troseddau casineb trawsffobig a gwblhawyd yn llwyddiannus gydag ymgodiad dedfryd wedi'i gyhoeddi a'i gofnodi, ffigwr a gynyddodd i 52.2% yn 2016-17.
- Cafwyd 4 achos o erlyniadau aflwyddiannus o ganlyniad i faterion yn ymwneud â dioddefwyr yn 2015-16 a phum achos yn 2016-17.
- Yn 2015-16 a 2016-17, cafwyd naw erlyniad a arweiniodd at ryddfarn yn dilyn treial.

Materion cydraddoldeb

- Mewn cysylltiad â diffynyddion mewn achosion trawsffobig, yn 2015-16 roedd 66 (77.6%) yn ddynion a 19 (22.4%) yn fenywod; a chofnodwyd rhywedd ym mhob achos. Yn 2016-17, roedd 72 o ddiffynyddion yn ddynion (78.3%) ac 20 (21.7%) yn fenywod, a chofnodwyd rhywedd ym mhob achos.
- O ran data dioddefwyr, cofnodwyd 84 o ddiodefwyr ar y System Rheoli Tystion. O'r holl ddiodefwyr, roedd 33 yn fenywaidd, 20 yn wrywaidd ac ni chofnodwyd rhywedd ar gyfer 31 o ddiodefwyr. Nid yw canran y diodefwyr y cofnodwyd eu rhywedd, sef 63.1%, yn ddigon cadarn i gynnwys cyfrannau rhywedd yn yr adroddiad hwn.

Troseddau homoffobig

- Yn 2016-17, cafwyd cynnydd o 5.2% mewn atgyfeiriadau gan yr heddlu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 1,241 i 1,305. O'r rhain, cyhuddwyd 1,024 o ddiffynyddion, sy'n gynydd o'r 926 yn y flwyddyn flaenorol.
- Cafwyd gostyngiad bach yn nifer yr erlyniadau troseddau casineb a gwblhawyd o 1,384 yn 2015-16 i 1,375 yn 2016-17. Cynrychiola hyn ostyngiad o 9 neu 0.7%.
- Y gyfradd euogfarnu ar gyfer 2015-16 oedd 83.2% (neu 1,151 o ganlyniadau llwyddiannus). Roedd y gyfradd hon yn gyson yn 2016-17, gyda 1,144 o ganlyniadau llwyddiannus. Cafwyd pledion euog mewn 74.2% o ganlyniadau llwyddiannus yn 2015-16 ac mewn 73.3% o ganlyniadau llwyddiannus yn 2016-17.
- Yn 2015-16, 28.8% (67) oedd cyfran yr achosion homoffobig a gofnodwyd yn aflwyddiannus oherwydd materion yn ymwneud â'r diodefwyr, ac yn 2016-17, 33.3% (77) oedd y gyfran.
- Yn 2015-16, roedd 32.6% o'r holl achosion aflwyddiannus o ganlyniad i ryddfarn yn dilyn treial. Yn 2016-17, cafwyd gwelliant yn y ffigwr hwn, i 26.8%.
- Yn 2016-17, 47.6% oedd cyfran yr erlyniadau troseddau casineb homoffobig a gwblhawyd yn llwyddiannus gydag ymgodiad dedfryd wedi'i gyhoeddi a'i gofnodi, sy'n gynydd o'r 38.0% yn 2015-16.

Materion cydraddoldeb

- O'r 1,375 o ddiffnyddion a erlynwyd, roedd 1,144 yn wrywaidd, 230 yn fenywaidd ac mewn 1 achos, ni chofnodwyd y rhywedd. Yn 2016-17, lle cofnodwyd rhywedd y diffnyddion, roedd 83.2% yn wrywaidd ac roedd 16.7% yn fenywaidd.
- O ran data dioddefwyr, cofnododd y System Rheoli Tystion 1,420 o ddiodeswyr. O'r holl ddiodeswyr, roedd 668 yn wrywaidd, 434 yn fenywaidd ac mewn 318 o achosion, ni chofnodwyd y rhywedd. Gostyngodd nifer y diodeswyr y cofnodwyd eu rhywedd o 84.9% yn 2015-16 i 77.6% yn 2016-17 ac felly nid yw'n ddigon cadarn i gyfrifo cyfrannau yn ôl rhywedd yn fanwl gywir. Gan fod GEG yn dibynnu ar wybodaeth am ddiodeswyr a gesglir ac a drosglwyddir gan yr heddlu, caiff mesurau eu hystyried ar y cyd i sicrhau dulliau mwy cadarn o gofnodi rhywedd.

Troseddau Casineb yn erbyn Pobl Anabl

Cyflwyniad

Cydnabu GEG yn ei adroddiad blynyddol diwethaf fod angen i ni wella perfformiad o ran y gyfradd euogfarnu a nifer yr ymgoriadau dedfryd ar gyfer achosion troseddau casineb yn erbyn pobl anabl. Cafodd cynnydd yn ystod y flwyddyn adrodd ei gefnogi gan effaith hyfforddiant troseddau casineb yn erbyn pobl anabled, a'r craffu parhaus a ddarparwyd gan y Cynllun Sicrwydd Troseddau Casineb. Mae nifer y penderfyniadau cyhuddo, yr erlyniadau a gwblhawyd a chyfran yr euogfarnau wedi cynyddu, fel gwnaeth y gyfran o achosion llwyddiannus gydag ymgoriad dedfryd wedi'i gofnodi.

Crynodeb o weithgarwch GEG



- Gyda chefnogaeth Panel Craffu Cenedlaethol yn canolbwyntio ar linydd penodol, adnewyddwyd y datganiad cyhoeddus ar droseddau casineb yn erbyn Pobl Anabl a Throseddau yn erbyn Pobl Anabl a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a dderbyniodd ymateb cadarnhaol yn gyffredinol.
- Yn codi o'r datganiad polisi diwygiedig ar droseddau casineb yn erbyn pobl anabl a throseddau eraill yn erbyn pobl anabl, cydnabu GEG werth y model cymdeithasol o anabled a'r ffaith ei fod yn ddefnyddiol i ddeall y rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl yn eu bywydau yn gyffredinol ac yn fwy penodol wrth sicrhau cyfiawnder.
- Yn dilyn pryder a fynegwyd gan sefydliadau anabled am y modd yr ymdrinnir â throseddau treisgar difrifol yn cynnwys dioddefwyr anabl, mae'r canllaw a'r cyngor cyfreithiol ar gyfer erlynwyr wedi'u diweddarau a'u diwygio.

Data

- Yn 2016-17, cafwyd cynnydd o 6.2% mewn atgyfeiriadau gan yr heddlu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 930 i 988. Roedd yna gynnydd yng nghyfran yr achosion a gyhuddwyd o 76.2% yn y flwyddyn flaenorol i 77.9%, gan arwain at 770 o bobl dan amheuaeth yn cael eu cyhuddo.
- Cynyddodd nifer yr erlyniadau troseddau casineb yn erbyn pobl anabl a gwblhawyd o 941 yn 2015-16 i 1,009 yn 2016-17. Cynrychiola hyn gynnydd o 68 neu 7.2%.

Tabl 11: Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl canlyniad

	2011-12		2012-13		2013-14		2014-15		2015-16		2016-17	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	480	77.3%	494	77.2%	470	81.9%	503	75.5%	707	75.1%	800	79.3%
Aflwyddiannus	141	22.7%	146	22.8%	104	18.1%	163	24.5%	234	24.9%	209	20.7%
Cyfanswm	621		640		574		666		941		1,009	



- Cynyddodd nifer yr euogfarnau 13.2%, o 707 yn 2015-16 i 800 yn 2016-17, a chynnydd hefyd yn y gyfradd euogfarnu i 79.3%.
- Mae'r gyfradd euogfarnu wedi cynyddu o 77% yn 2007-08 i 79.3% yn 2016-17.
- Roedd 67.9% o ganlyniadau llwyddiannus oherwydd pledion euog ac o'r holl droseddau casineb yn erbyn pobl anabl a heriwyd mewn treial (ac eithrio pledion cymysg), cafwyd 61.8% yn euog.
- Roedd 209 o erlyniadau'n aflwyddiannus – 12.9% o ganlyniad i beidio â chwblhau erlyniadau (gan gynnwys penderfyniadau i ollwng, tynnu'n ôl neu beidio â chynnig unrhyw dystiolaeth), sef gostyngiad o 15.1% yn 2015-16.
O'r holl ganlyniadau aflwyddiannus, roedd 21.5% o ganlyniad i faterion yn ymwneud â dioddefwyr¹⁴; gostyngiad o 25.2% yn 2015-16.
- Yn 2016-17, roedd cyfran yr achosion aflwyddiannus o ganlyniad i ryddfarn yn dilyn treial yn cynrychioli 30.6% (64) o'r holl achosion aflwyddiannus, sy'n ostyngiad o'r 31.2% (73) yn 2015-16.

¹⁴Roedd materion yn ymwneud â dioddefwyr yn cynnwys datgyffesiad gan ddiodefwyr, diodefwyr ddim yn mynychu a lle 'nad yw dystiolaeth y diodefwyr yn cefnogi'r achos'.

- Mae ymgodiad dedfryd wedi'i gyhoeddi a'i gofnodi mewn achos trosedd casineb a erlynwyd yn llwyddiannus yn ddangosydd clir o'r gyfraith yn cael ei chymhwyso i'r diben gorau. Yn 2016-17, roedd 117 o ymgodiadau dedfryd wedi'u cyhoeddi a'u cofnodi, sef 14.6%, sy'n gynydd o'r 84 neu 11.9% yn 2015-16. Er bod y canlyniad hwn yn galonogol, mae'r ffigwr yn parhau i fod yn sylweddol is o'i gymharu â'r ffigyrau ar gyfer llinynnautroseddau casineb eraill a chaiff camau i gynnal gwelliant parhaus eu nodi drwy'r Cynllun Sicrwydd Troseddau Casineb.
- Dros y deng mlynedd ers 2007-08, mae hyn wedi cynyddu o bedwar (2.8%) erlyniad llwyddiannus i 117 (14.6%).
- Ddeng mlynedd yn ôl, y gyfradd euogfarnu gyffredinol ar gyfer erlyniadau troseddau casineb yn erbyn pobl anabl oedd 77.0%. Yn 2016-17, cynyddodd y gyfradd i 79.3%. Fodd bynnag, nid yw'r cyfraddau hyn yn datgelu'r darlun cyfan, gan fod nifer yr euogfarnau dros y cyfnod wedi cynyddu o 141 i 800.
- Yn 2007-08, roedd cyfradd y canlyniadau llwyddiannus mewn achosion troseddau casineb yn erbyn pobl anabl a ddeilliodd o bledion euog yn 71.6% (131). Yn 2016-17, gostyngodd y gyfradd hon i 67.9% (685) o ganlyniadau llwyddiannus. Eto, roedd nifer fwy o achosion wedi'u setlo yn y modd hwn, ond bydd GEG yn gweithio'n agos gydag Ardaloedd GEG i ymchwilio i'r rhesymau posibl dros y gostyngiad hwn ac yn ystyried y mesurau a fydd angen eu gweithredu i'w wrthdroi.
- Ar ddiwedd erlyniad, dyrennir prif gategori trosedd i achosion (gweler Tabl 3 uchod) er mwyn dangos y math o gyhuddiadau a ddygwyd a'u difrifoldeb. Parhaodd troseddau yn erbyn yr unigolyn i fod y mwyaf cyffredin gan gynrychioli 48.0% o'r holl erlyniadau troseddau casineb yn erbyn pobl anabl yn 2015-16 a 46.4% yn 2016-17. Ar y cyfan, roedd yna amrywiaeth fwy arwyddocaol o gategoriâu wedi'u cynrychioli o fewn erlyniadau troseddau casineb yn erbyn pobl anabl nag unrhyw llyn arall o droseddau casineb - efallai'n adlewyrchu natur gaffaelgar rhai troseddau casineb yn erbyn pobl anabl. Archwiliwyd yr agwedd hon ar elyniaeth yn erbyn pobl anabl gyda chymorth y Panel Caffael Cenedlaethol ar elyniaeth yn erbyn pobl anabl a gefnogodd datblygiad y datganiad cyhoeddus ar droseddau casineb yn erbyn pobl anabl a throseddau eraill yn erbyn pobl anabl.

Materion Cydraddoldeb

Rhywedd

- O'r 1,009 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 726 yn wrywaidd, 283 yn fenywaidd ac ni chafwyd unrhyw achos lle na chofnodwyd y rhywedd. Yn 2016-17, lle y cofnodwyd rhywedd diffynyddion, roedd 72% yn wrywaidd a 28% yn fenywaidd, sy'n cynrychioli cynnydd mewn diffynyddion benywaidd o'r 24.5% yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r gymhareb hon o ran rhywedd rhwng diffynyddion gwrywaidd a benywaidd yn unigryw i droseddau casineb yn erbyn pobl anabl. Mewn achosion yn ymwneud â hil a chrefydd y gymhareb yw 81.7%:18.3%, ac mewn achosion homoffobig, deuffobig a thrawsffobig, y gymhareb yw 82.9%:17.1%.
- O ran data dioddefwyr, cofnododd y System Rheoli Tystion 1,041 o ddioddefwyr. O'r holl ddioddefwyr, roedd 396 yn wrywaidd, 414 yn fenywaidd ac mewn 231 o achosion, ni chofnodwyd y rhywedd. Gostyngodd nifer y dioddefwyr y cofnodwyd eu rhywedd o 83.2% yn 2015-16 i 77.8%, ac felly nid yw'n ddigon cadarn i gyfrifo cyfrannau yn ôl rhywedd yn

fanwl gywir. Yn 2017-18, caiff mesurau eu hystyried i sicrhau dulliau mwy cadarn o gofnodi rhywedd.

Ethnigrwydd

- Yn 2016-17, categoriwyd 72.7% o ddiffnyddion troseddau casineb yn erbyn pobl anabl fel "Gwyn" (gostyngiad o'r 75.8% yn 2015-16), gyda 69.1% yn nodi eu bod yn perthyn i'r categori "Gwyn Prydeinig". Nododd 5.6% eu bod yn "Ddu", sy'n gynydd o'r 4.7% yn y flwyddyn flaenorol, a nododd 2.7% eu bod yn "Asiaidd", sy'n ostyngiad o'r 4.4% yn y flwyddyn flaenorol.
- Mae ychydig yn llai na hanner ethnigrwydd dioddefwyr yn dal heb ei gofnodi ac felly ni chaiff y data ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Oedran

- O'r diffnyddion hynny y cofnodwyd eu hoedran, roedd y rhan fwyaf rhwng 25 a 59 oed (66.9%) a rhwng 18 a 24 oed (16.4%). Roedd 28.7% o ddiffnyddion (288) yn 24 oed ac iau, gyda 99 (9.9%) o ddiffnyddion rhwng 14 ac 17 oed a 24 (2.4%) rhwng 10 a 13 oed.
- O'r dioddefwyr hynny y cofnodwyd eu hoedran, roedd y rhan fwyaf rhwng 25 a 59 oed (55.6%) a rhwng 18 a 24 oed (13.2%). Roedd 17.4% o ddiodeswyr (154) yn 24 oed ac iau, gyda 28 (3.2%) o ddiodeswyr rhwng 14 ac 17 oed, 9 (0.1%) rhwng 10 a 13 oed a 0 o dan 10 oed (0%).

Ysgogi Casineb

Cyflwyniad

Mae troseddau casineb yn canolbwyntio ar elyniaeth neu ragfarn yn erbyn rhannau penodol o'r gymdeithas. Defnyddir gelyniaeth yn ystyr arferol, bob dydd y gair a ddiffinnir yn y geiriadur fel drwgewyllys, anghyfeillgarwch, sbeit, drwgdeimlad, diystyrwch, rhagfarn, dicllondeb, atgasedd a chasineb. Fodd bynnag, mae troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus yn ymwneud ag "ysgogi casineb" yn canolbwyntio ar gasineb ei hun a bwriad neu fwriad tebygol y trosedd dan sylw.

Mae nifer yr achosion a ddygwyd yn llawer is nag ar gyfer troseddau eraill y sonnir amdanynt yn yr adroddiad hwn. Mae hyn o ganlyniad i drothwyon tystiolaethol uwch a'r angen i ystyried hawl unigolyn i ryddid mynegiant. Mae'n hanfodol mewn cymdeithas rydd, ddemocrataidd a goddefgar fod pobl yn gallu cyfnewid safbwyntiau, hyd yn oed pan allai trosedd gael ei hachosi. Fodd bynnag, mae'n rhaid hefyd i GEG gydbwysu hawliau unigolyn o ran rhyddid i lefaru a rhyddid mynegiant yn erbyn dyletswydd y wladwriaeth i weithredu'n gymesur er budd diogelwch y cyhoedd, i atal anhrefn a throsedd, ac i amddiffyn hawliau eraill.

Caiff achosion posib eu hatgyfeirio at yr Is-adran Troseddau Arbennig a Gwrth-Derfysgaeth (ITAGD) gan Ardaloedd GEG yn unol â Chanllaw GEG ar Erlyn Achosion o Ysgogi Casineb ar sail Hil a Chrefydd a Chasineb yn seiliedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol. Mae angen caniatâd y Twrnai Cyffredinol i erlyn y troseddau hyn.

Mae pryder y cyhoedd yn ymwneud â'r achosion hyn wedi codi yn ddiweddar yn dilyn y cynnydd sydyn mewn gelyniaeth a brofwyd ac a adroddwyd yn dilyn achosion o derfysgaeth ddomestig neu ryngwladol fel â ddigwyddodd yn Llundain, Manceinion, Barcelona a Berlin. Mae'r heddlu ac asiantaethau adrodd trydydd parti, Tell MAMA a'r Ymddiriedolaeth Diogelwch Cymunedol, wedi nodi lefelau uwch o achosion troseddau casineb yn syth ar ôl digwyddiadau o'r fath.

Er bod problemau'n parhau ynghylch codi ymwybyddiaeth mewn cysylltiad â phob math o droseddau casineb, mae ysgogi troseddau casineb yn ychwanegu haen arall o gymhlethdod. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu natur ddwysach casineb o'i gymharu â gelyniaeth. Hefyd, nodir angen o fewn y gyfraith i ystyried yr hawl i ryddid mynegiant. Mae gan wahanol "linynnau" wahanuaethau arwyddocaol wedi'u hysgrifennu yn y gyfraith ac er bod cyfradd llwyddiant yr erlyniadau'n uchel o'i gymharu â mathau eraill o droseddau casineb, mae atgyfeiriadau a phenderfyniadau i gyhuddo yn llawer is.

Data

- Cafwyd pedwar erlyniad yn 2016-17, pob un â chanlyniad llwyddiannus.
- Roedd y cyntaf hefyd yn cynnwys troseddau o dan a1 (2) Deddf Terfysgaeth 2006 a dau gyhuddiad o dan a29C Deddf Trefn Gyhoeddus 1986. Roedd y troseddau ysgogi casineb yn cynnwys rhethreg wrth-Shia a homoffobig a fwriadwyd i ysgogi casineb ar sail crefydd a chyfeiriadedd rhywiol. Derbyniodd y diffynnydd ddedfryd o chwe blynedd yn y carchar wedi'i lleihau i bedair blynedd, sef gostyngiad llawn o ganlyniad i bledio'n euog, ar bob cyhuddiad, i'w cydreddeg.

- Roedd yr ail yn cynnwys dau gyhuddiad o dan a.18 ac a.19 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 ac yn cynnwys terminoleg ddifriol o ran hil tuag at Iddewon, Sipsiwn a phobl "nad ydynt yn wyn" yn gyffredinol. Cafwyd y diffynnydd yn euog a'i ddedfrydu i bedair blynedd yn y carchar gyda Gorchymyn Ymddygiad Troseddol am chwe blynedd a fforffedu pob dyfais a oedd yn cael eu defnyddio. Lleihawyd y ddedfryd yn dilyn apêl i ddwy flynedd a hanner.
- Roedd y trydydd achos yn cynnwys casineb ar sail hil, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol o dan Deddf Trefn Gyhoeddus 1986. Plediodd y ddiffynnydd yn euog i wyth cyhuddiad. O ganlyniad, lleihawyd y ddedfryd i bum mlynedd ynghyd â chyfnod hysbysu 15 mlynedd a gordal dioddefwyr.
- Cyhuddwyd y pedwerydd achos gydag wyth cyhuddiad o dan a.29C Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 ar sail casineb ar sail crefydd, yn benodol casineb gwrth-Foslemaidd. Plediodd y diffynnydd yn euog a chafodd ei ddedfrydu i 20 mis am bob cyhuddiad i'w cydreddeg.

Troseddau yn erbyn Pobl Hŷn

Ni cheir diffiniad statudol o drosedd yn erbyn unigolyn hŷn (TYEUH) na deddfwriaeth benodol. Nid yw adrannau 145 na 146 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, sy'n darparu ar gyfer ymgodi dedfryd mewn achosion troseddau ar sail hil a chrefydd, troseddau homoffobig a thrawsffobig a throseddau casineb yn erbyn pobl anabl, yn berthnasol i droseddau yn erbyn unigolion hŷn oni bai bod y trosedd yn dod o dan un o'r categorïau eraill hyn. Fodd bynnag, mae canllawiau dedfrydu'n gwahodd llysoedd i gynyddu'r ddedfryd ar gyfer troseddau yn erbyn pobl hŷn ar y sail bod eu gwendid tybiedig yn elfen waethybol gan gynyddu difrifoldeb y drosedd.

Mae GEG yn dilyn y canllawiau dedfrydu ym mhob achos perthnasol ac yn cymhwyso fflag TYEUH ar system ddigidol GEG ar gyfer rheoli achosion o ran troseddau dan yr amgylchiadau canlynol er mwyn gallu nodi achosion:

- pan fo perthynas a disgwyliad o ymddiriedaeth e.e. ymosodiad/lladrad gan ofalwr neu aelod o'r teulu;
- pan fo'r drosedd wedi'i thargedu'n benodol tuag at yr unigolyn hŷn oherwydd y canfyddir eu bod yn agored i niwed neu'n 'darged hawdd' e.e. byrgleriaeth drwy dynnu sylw neu fygio;
- pan nad yw'r drosedd yn gysylltiedig i ddechrau ag oedran yr unigolyn hŷn ond ei bod yn gysylltiedig yn ddiweddarach e.e. byrgleriaeth pan nad yw'r byrgler yn gwybod beth yw oedran deiliad y tŷ ond wedyn yn manteisio ar y sefyllfa ar ôl canfod bod deiliad y tŷ yn unigolyn hŷn;
- pan ymddengys bod troseddau wedi'u hysgogi'n rhannol, neu'n gyfan gwbl gan elyniaeth yn seiliedig ar oedran e.e. ymosodiad, aflonyddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys datganiadau difriol yn gysylltiedig ag oedran y dioddefwr; neu
- pan fo troseddwr yn fwriadol yn targedu unigolyn hŷn oherwydd ei elyniaeth tuag at bobl hŷn.



Mae GEG yn cydnabod yr amrywiaeth o ymddygiadau troseddol y gall pobl hŷn fod yn agored iddynt. Mae GEG wedi bod yn rhan o drafodaethau a fydd yn helpu i lywio gwaith Panel Craffu Cenedlaethol y'i bwriedir i ddiwygio'r polisi a'r canllaw cyfreithiol cyn ddiwedd mis Mawrth 2017.

Data

- Yn 2016-17, roedd gostyngiad o 2.8% mewn atgyfeiriadau gan yr heddlu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 3,568 i 3,467. Roedd yna gynnydd yng nghyfran yr achosion a gyhuddwyd o 77.2% yn y flwyddyn flaenorol i 80.3% gan arwain at 2,783 o bobl dan amheuaeth yn cael eu cyhuddo.
- Gostyngodd nifer yr erlyniadau TYEUH a gwblhawyd o 3,759 yn 2015-16 i 3,554 yn 2016-17. Cynrychiola hyn ostyngiad o 205 neu 5.5%.

Tabl 14: Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl canlyniad ar gyfer troseddau yn erbyn pobl hŷn

	2011-12		2012-13		2013-14		2014-15		2015-16		2016-17	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	2,332	81.3%	2,340	81.1%	2,369	81.1%	2,983	80.8%	3,012	80.1%	2,856	80.4%
Aflwyddiannus	535	18.7%	546	18.9%	553	18.9%	710	19.2%	747	19.9%	698	19.6%
Cyfanswm	2,867		2,886		2,922		3,693		3,759		3,554	



- Gostyngodd nifer yr euogfarnau 5.2%, o 3,012 yn 2015-16 i 2,856 yn 2016-17, tra bod y gyfradd euogfarnu wedi aros yn gyson yn gyffredinol ar 80.1% a 80.4% yn y drefn honno.
Roedd 71.8% o ganlyniadau llwyddiannus o ganlyniad i bledion euog, sy'n ostyngiad bach o'r 72.5% yn y flwyddyn flaenorol.
- Roedd 698 o erlyniadau'n aflwyddiannus – 12.4% o ganlyniad i beidio â chwblhau erlyniadau (gan gynnwys penderfyniadau i ollwng, tynnu'n ôl neu beidio â chynnig unrhyw dystiolaeth), sef gostyngiad o'r 12.6% yn 2015-16.

- O'r holl ganlyniadau aflwyddiannus, roedd 23.2% o ganlyniad i faterion yn ymwneud â'r dioddefwyr,¹⁵ sy'n gynnydd o'r 21.8% yn 2015-16.
- Yn 2016-17, roedd cyfran yr achosion aflwyddiannus oherwydd rhyddfarn yn dilyn treial yn cynrychioli 23.4% (163) o'r holl achosion aflwyddiannus, sy'n ostyngiad o 25.0% (187) yn 2015-16.

Materion Cydraddoldeb

- O'r diffynyddion lle cofnodwyd eu rhywedd, roedd 2,708 (76.3%) mewn erlyniadau a gyblhawyd yn wrywaidd. Mae hyn wedi codi o 760 (75.8%) yn 2008-09.
- Mae nifer y dioddefwyr y cofnodwyd eu rhywedd wedi gostwng o 81.0% o'r holl ddioddefwyr yn 2015-16 i 75.6% yn 2016-17 ac felly nid yw'n ddigon cadarn i gyfrifo cyfrannau yn ôl rhywedd yn fanwl gywir.

Ar ddiwedd erlyniad, dyrennir prif gategori trosedd i achosion er mwyn dangos y math o gyhuddiadau a ddygwyd a'u difrifoldeb. Mae Tabl 15 isod yn dangos y categorïau trosedd ar gyfer TYEUH.

Tabl 15: Prif gategoriâu troseddau ar gyfer troseddau yn erbyn pobl hŷn

Prif Gategori Trosedd	2013–14	2014–15	2015–16	2016–17
Dynladdiad	1.1%	1.0%	1.0%	0.9%
Troseddau yn erbyn yr unigolyn	27.4%	28.4%	31.3%	33.8%
Troseddau rhywiol	1.9%	1.6%	1.3%	1.5%
Byrgleriaeth	21.7%	20.9%	20.4%	18.0%
Lladrad	7.7%	6.5%	7.3%	6.6%
Dwyn a thrin eiddo	17.1%	17.8%	16.8%	13.7%
Twyll a ffugio	12.3%	13.0%	15.1%	20.2%
Difrod troseddol	3.8%	4.2%	3.1%	2.4%
Troseddau cyffuriau	1.1%	0.7%	0.7%	0.8%
Troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus	1.8%	2.3%	1.5%	1.3%

- Cynyddodd cyfran yr achosion a gategoreiddiwyd fel Troseddau yn erbyn yr Unigolyn unwaith eto yn ystod 2016-17, ond yr hyn sy'n nodedig yw parhad troseddau meddiangar gyda phwyslais ar gael gafael ar arian.
- Ardaloedd GEG a gofnododd y cynydd uchoaf mewn erlyniadau TYEUH yn 2016-17 oedd: Llundain (9.8%), De-ddwyrain Lloegr (7.1%) a Dwyrain Lloegr (3.7%).

¹⁵Roedd materion yn ymwneud â dioddefwyr yn cynnwys datgyffesu gan ddioddefwyr, dioddefwyr ddim yn mynychu a lle 'nad yw tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos'.